



Gwerthusiad Doethineb Gwledig

Stori am brosiect datblygiad cymunedol yn ystod Covid-19

Rhagfyr 2021



1. Crynodeb

Prosiect dros bum mlynedd oedd Doethineb Gwledig wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn archwilio effaith gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu harwain gan bobl hŷn yn ardaloedd gwledig Cymru a'r Alban.

Fel rhan o gamau olaf y prosiect mae partneriaid Doethineb Gwledig; Outside the Box, Volunteering Matters Cymru a'r Tîm Datblygu Cenedlaethol dros Gynhwysiant (NDTi) yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r bum mlynedd a gwmpasir yn yr adroddiad gwerthusiad terfynol hwn er mwyn galluogi pobl sy'n byw ac yn gweithio yn ardaloedd gwledig eraill ledled y DU i wneud cais am yr hyn sy'n gweithio, ac elwa ohono.

Nodau'r Prosiect

Mae nodau Doethineb Gwledig wedi datblygu yn ystod y bum mlynedd i adlewyrchu natur newidiol y prosiect a'r cymunedau dan sylw, ond mae eu ffocws wedi parhau ar:



Cymunedau Doethineb Gwledig

Scotland

- [Eaglesham a Waterfoot](#)
- [Ucheldir Swydd Perth](#)
- [Golgedd Angus](#)
- [Burghead, Hopeman a Cummingston](#)
- [Gororau'r Alban](#)

Wales

- [Coed-llai a Phontblyddyn](#)
- [Aberdaugleddau](#)
- [Penrhyn Dale](#)
- [Treffynnon](#)

Dyluniad y Prosiect

Roedd Doethineb Gwledig yn brosiect hir dymor a gafodd ei ddylunio fel taith tri cham i'w gwblhau mewn cymunedau rhwng 2017 – 2022.



Cam Un: 2017 – 2019 Gweithio gyda phum ardal leol; Eaglesham a Waterfoot, Ucheldir Swydd Perth, Gogledd Angus, Coed-llai ac Aberdaugleddau, a chynnal sgysiau gyda phobl hŷn yng nghymunedau gwledig eraill. Bwydo gwersi a ddysgir yn gynnar i mewn i ddatblygiadau o ran polisi ac ymarfer yng Nghymru a'r Alban.



Cam Dau: 2019 – 2021 Gweithio gyda phedair ardal ychwanegol; Burghead a Hopeman, Gororau'r Alban, Penrhyn Dale a Threffynnon, a bwydo'r canfyddiadau i mewn i ddatblygiadau o ran polisi ac ymarfer yng Nghymru a'r Alban.



Cam Tri: 2020 – 2022 Pob ardal wledig sydd ynghlwm â'r prosiect yn parhau i gael eu cefnogi a chyfraniadau yn cael eu gwneud at ddatblygu polisiau lleol a chenedlaethol. Caiff y gwersi a ddysgwyd eu rhannu er mwyn codi proffil y materion sy'n wynebu pobl hŷn yn ardaloedd gwledig.

Er bod pandemig COVID-19 wedi ein taro yn ystod Cam Dau a Thri, roedd natur organig y dyluniad gan Doethineb Gwledig yn golygu y gellid mynd ati i leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd ac ymateb i'r sefyllfa newydd.

Gwerthuso

Comisiynwyd NDTi fel prif bartner gwerthuso ar gyfer Doethineb Gwledig yn 2017 a pharhaodd yn y safle hwnnw hyd at fis Ionawr 2020. Ar yr adeg hon, cafodd y trefniadau eu hadolygu ac ymgwymerodd ag Outside the Box y gwaith o werthuso gweithgareddau Doethineb Gwledig yn yr Alban, gyda NDTi yn arwain y gwaith gwerthuso yng Nghymru, [yn adolygu'r cyd-destun polisi](#) yr oedd y prosiect yn berthnasol iddo yn y ddwy genedl, a thynnu yng hyd yr adroddiad terfynol hwn a dogfen [gwersi allweddol](#) a ddysgwyd.

Prif Ganfyddiadau

Mae ymgymryd â phrosiect datblygu cymunedol fel Doethineb Gwledig yn ystod pandemig wedi bod yn dasg heriol i bawb ynghlwm. Wedi dweud hynny, oherwydd hirhoedledd Doethineb Gwledig (2017 – 2022), ei gyllid (Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol) a'r bobl sydd wedi'u cyflogi i gyflawni a gwerthuso'r gwaith, roedd modd addasu'r prosiect. Mewn sawl achos, llwyddodd Doethineb Gwledig i gynyddu ei weithgareddau i leihau arwahanrwydd cymdeithasol i bobl hŷn yng nghymunedau gwledig Cymru a'r Alban, yn ogystal â chynnig cymorth i grwpiau lleol yn eu hymateb i'r pandemig. Gweler isod y prif bethau a helpodd Doethineb Gwledig i gyflawni'n llwyddiannus y rhan fwyaf o'i ganlyniadau yn ystod cyfnod unigryw mewn hanes:



Mae cymunedau lleol yn gwybod beth sydd orau iddynt – Roedd cadw'r gred hon wrth ei galon yn caniatáu i Doethineb Gwledig glywed lleisiau pobl mewn cymunedau a chynnig cymorth, cysylltiadau ac adnoddau yn ôl yr angen.



Meddu ar y cyllid cywir – Roedd gan Doethineb Gwledig gyllid a oedd yn caniatáu iddo wrando a gweithio'n hyblyg gyda chymunedau, yn hytrach na chyflawni newidiadau ynddynt.



Cyflogi'r bobl gywir – Treuliodd Doethineb Gwledig amser yn dod o hyd i'r gweithwyr/gwirfoddolwyr cywir; rhai a oedd yn lleol i'r ardal, yn credu yn y gymuned, a oedd yn gallu bod yno yn y tymor hir, ac yn gallu bod yn gwndid syniadau, cysylltiadau, gwybodaeth, a chyllid.



Gwrando a dysgu gan bobl a'u cymunedau – Cafodd gweithwyr Doethineb Gwledig sgysiau da gyda phobl, gan wrando ar eu syniadau a'u pryderon cyn cynnig syniadau, gwybodaeth, cysylltiadau, ac adnoddau.



Magu perthnasoedd ac ymddiriedaeth – Oherwydd bod y gweithwyr/gwirfoddolwyr cywir mewn lle, cafodd perthnasoedd eu ffurfio, a magwyd ymddiriedaeth mewn cymunedau a oedd yn caniatáu i newid ddigwydd, hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf anffafriol.



Defnyddio gwybodaeth a sgiliau lleol – Gyda'r gweithwyr/gwirfoddolwyr cywir mewn lle, gellid defnyddio eu gwybodaeth leol i helpu i fagu cysylltiadau'r prosiect, meddwl am syniadau, a datblygu Doethineb Gwledig dros amser.



Annog pobl i gysylltu – Mae gallu'r gweithwyr/gwirfoddolwyr i annog pobl i gysylltu oddi mewn ac ar draws cymunedau, yr ardal leol a rhwydweithiau cenedlaethol yn golygu bod gan Doethineb Gwledig fwy o gynghreiriaid, cyfleoedd, a phartneriaethau.



Bod yn hyblyg a chreadigol – Roedd bod yn barod i newid cwmpas Doethineb Gwledig, a'r gallu i'w newid, yn wyneb COVID-19 yn allweddol i lwyddiant Doethineb Gwledig. Wedi dweud hynny, byddai'n debygol y byddai angen hynny yn ystod unrhyw brosiect datblygu hirdymor.



Rhannu dysg – Roedd dweud wrth bobl a chymunedau eraill am bethau a oedd yn digwydd a'r gwersi a ddysgwyd fel rhan o Doethineb Gwledig, yn arwain at gysylltiadau, syniadau a dulliau newydd yn sail i gyflawniad y prosiect.



Ymgysylltu â'r rhai sy'n llunio polisiau ac yn gwneud penderfyniadau – Mae rhannu dysg, gwybodaeth ac argymhellion gyda'r rhai sy'n llunio polisiau ac yn gwneud penderfyniadau wedi helpu i fewnosod Doethineb Gwledig ar raddfa leol a chenedlaethol yng Nghymru a'r Alban.Wales.

2. Cyflwyniad

2.1 Cefndir Doethineb Gwledig

Beth yw Doethineb Gwledig?

Roedd Doethineb Gwledig yn brosiect datblygiad cymunedol dros bum mlynedd (2017 – 2022), a oedd yn anelu at archwilio sut allai galluogi pobl hŷn yng Nghymru a'r Alban i ddefnyddio eu llais, eu sgiliau a'u profiadau gyflawni newid a gwneud i gymunedau gwledig weithio wrth i bobl fynd yn hŷn.

Crëwyd y prosiect i ymateb i'r ffaith bod mwy o bobl hŷn yn byw mewn cymunedau gwledig nag ardaloedd trefol yn y DU, gyda'r poblogaethau hynaf yng Nghymru ac yna yn yr Alban. Er hyn, roedd y gwaith a wnaethpwyd i greu Cymunedau Cyfeillgar i Oedran yn y DU cyn dechrau Doethineb Gwledig yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd trefol ac roedd heneiddio'n dda mewn llefydd gwledig yn cael llawer llai o sylw. Golyga hyn, nes i Doethineb Gwledig ddechrau, bod problemau, blaenoriaethau, ac anghenion pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hesgeuluso gan y rhai a oedd yn gwneud penderfyniadau, comisiynwyr, llunwyr polisïau a chenedlaethau eraill. Er enghraifft, yn aml roedd rhaid i bobl hŷn symud cartref neu deithio ymhell i geisio'r hyn yr oedd eu hangen arnynt; roedd diffyg tai hygyrch, fforddiadwy; ac opsiynau prin o ran cymorth iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn arwain at deimlad o ddiffyg dewis a rheolaeth.

Yn 2015/16 roedd dau bartner cyflawni Doethineb Gwledig; Outside the Box, a Volunteering Matters, yn teimlo bod angen gwneud rhywbeth er mwyn newid y sefyllfa hon. Roeddynt yn gwybod bod pobl hŷn (ac eraill) mewn ardaloedd gwledig yn meddu ar brofiadau a doniau a, pe gânt gymorth a chefnogaeth, allai helpu i hyrwyddo'r newid a oedd ei angen i wneud cymunedau gwledig yn gyfeillgar i oedran. O ganlyniad, dechreuwyd cysyniad Doethineb Gwledig ac fe'i hariannwyd yn llwyddiannus yn 2017 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Nodau'r Prosiect

Mae nodau (a chanlyniadau) Doethineb Gwledig wedi newid dros amser, yn enwedig wrth ymateb i gwmpas a ffocws newidiol y prosiect o ganlyniad i bandemig COVID-19. Nodau gwreiddiol y prosiect oedd:

1. Mwy o bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn cael llais ac yn arwain newid yn eu cymunedau lleol.
2. Mwy o bobl hŷn yn cael y cymorth maen nhw ei eisiau, sy'n gweithio'n dda iddyn nhw, drwy ystod ehangach o wasanaethau cymunedol.
3. Polisïau yng Nghymru a'r Alban yn cefnogi pobl hŷn i barhau i fyw yn y cymunedau gwledig sy'n gyfarwydd iddynt ac yn annog pobl hŷn i gyfrannu at eu cymunedau.
4. Mae profiad pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, a'u cymunedau, yn cyfrannu at dwf cymunedau ledled y DU sy'n gwerthfawrogi, yn cynnwys ac yn cefnogi pobl hŷn.

Yng ngwanwyn 2021, ychwanegwyd y nodau canlynol ar ôl ymgynghori â phartneriaid y prosiect (gweler eu manylion uchod ac isod), aelodau cymunedau a rhanddeiliaid drwy gyfres o sgrysiâu a holiaduron ar-lein:

5. Mae'r cysylltiadau a'r rhwydweithiau cymorth sydd wedi'u magu ar draws cenedlaethau mewn cymunedau lleol yn ystod pandemig COVID-19, yn cael cymorth i barhau ar ôl y pandemig.
6. Gwrandewir ar leisiau pobl hŷn a chânt eu gwerthfawrogi yn y gwaith adfer a wneir yn ardaloedd gwledig i ail-ddatblygu cymunedau, gwasanaethau, a seilwaith. Ac mae hynny'n cynnwys beth i'w ail-gyflwyno mewn cymunedau gwledig, a sut mae mynd ati i wneud hynny, o'r adeg cyn y pandemig.
7. Caiff pobl hŷn mewn cymunedau lleol eu cefnogi i ail-gysylltu ag eraill yn eu hardal leol mewn modd sy'n teimlo'n ddiogel.

Partneriaeth Doethineb Gwledig

Outside the Box oedd prif bartner Doethineb Gwledig, yn cefnogi'r prosiect yn gyffredinol ac yn arwain y gwaith yn yr Alban. Volunteering Matters oedd yn arwain y gwaith yng Nghymru. Gweithiodd y gweithwyr datblygu yn y naw ardal gyda'r cymunedau sydd ynghlwm â Doethineb Gwledig yn ystod ei bum mlynedd. Roedd NDTi ac Outside the Box yn gyfrifol am werthuso a rhannu gwersi a ddysgwyd o'r prosiect.

Dyluniad y Prosiect

Roedd Doethineb Gwledig yn brosiect hirdymor a gafodd ei ddylunio fel taith tri cham i'w chwblhau gyda chymunedau rhwng 2017 – 2022.



Cam Un: 2017 – 2019 Gweithio gyda phum ardal leol; Eaglesham a Waterfoot, Ucheldir Swydd Perth, Gogledd Angus, Coed-llai ac Aberdaugleddau, a chynnal sgysiau gyda phobl hŷn yng nghymunedau gwledig eraill. Bwydo gwersi a ddysgir yn gynnar i mewn i ddatblygiadau o ran polisi ac ymarfer yng Nghymru a'r Alban.



Cam Dau: 2019 – 2021 Gweithio gyda phedair ardal ychwanegol; Burghead a Hopeman, Gororau'r Alban, Penrhyn Dale a Threffynnon, a bwydo'r canfyddiadau i mewn i ddatblygiadau o ran polisi ac ymarfer yng Nghymru a'r Alban.



Cam Tri: 2020 – 2022 Pob ardal wledig sydd ynghlwm â'r prosiect yn parhau i gael eu cefnogi a chyfraniadau yn cael eu gwneud at ddatblygu polisiâu lleol a chened-laethol. Caiff y gwersi a ddysgwyd eu rhannu er mwyn codi proffil y materion sy'n wynebu pobl hŷn yn ardaloedd gwledig.

Er bod pandemig COVID-19 wedi taro yn ystod Cam Dau a Thri y prosiectau, roedd natur organig y dyluniad gan Doethineb Gwledig yn golygu y gellid cymryd camau i ymateb i'r sefyllfa newydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, llwyddodd y prosiect i gynyddu ei weithgareddau er mwyn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a chefnogi grwpiau lleol gyda'u hymateb i'r pandemig.

Felly, mae'r gwersi a ddysgwyd sy'n cael eu rhannu yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i gyd-destun COVID-19. Roedd hwn yn gyfnod unigryw mewn hanes, a gobeithir na chaiff ei ailadrodd, ond gall y gwersi a ddysgwyd roi cipolwg gwerthfawr ar yr hyn y mae angen ar brosiect cymunedol i ffynnu hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf anffafriol.

Ardaloedd Doethineb Gwledig

Roedd Doethineb Gwledig wedi'i leoli mewn naw lleoliad ledled Cymru a'r Alban.



Yr Alban

Lleoliadau Cam Un

Eaglesham a Waterfoot - Pentrefi yn nwyrain Swydd Renfrew yw Eaglesham a Waterfoot ac mae iddynt boblogaeth o lai na 4,000 o bobl. Dim ond milltir sydd rhwng y ddau bentref ac maent yn gysylltiedig â'i gilydd drwy rannu darpariaethau fel cyngor cymuned, llyfrgell, ysgol, a rhai siopau lleol. Maen nhw'n agos at ardaloedd trefol mawr lle mae'r prif wasanaethau wedi'u lleoli, ond prin yw'r drafnidiaeth gyhoeddus atynt.

Ucheldir Swydd Perth - dyma'r ardal eang sy'n cynnwys cymunedau Aberfeldy (y lle mwyaf sydd â phoblogaeth o 2,000), Kenmore, Fortingall, Glen Lyon, Kinlock Rannoch, Grandully a Strathtay. Mae pobl yn dibynnu arnynt eu hunain ac ar eraill ac eisiau cefnogi gwasanaethau lleol. Mae'r gallu i he-neiddio yn y llefydd mae pobl yn gyfarwydd â nhw yn flaenoriaeth.

Gogged Angus - Mae gan Brechin boblogaeth o 7,400 ond arferai fod yn dref fwy, ac roedd gan bentref Edzell lai na 1,000 o bobl ond mae'n ehangu gyda thai newydd. Ymhlith y problemau i bobl yma mae dirywiad yn y siopau a'r gwasanaethau lleol, cysylltiadau trafnidiaeth gwael, a mynediad at y prif wasanaethau yn rhannau eraill o Angus a gofal iechyd yn Dundee.

Lleoliadau Cam Dau

Burghead, Hopeman a Cummingston - cymunedau arfordirol i'r gogledd o Elgin yn Moray. Mae gwasanaethau ar draws y pentrefi a phrif wasanaethau mewn 2 dref gyfagos, ond cysylltiadau trafnidiaeth gwael. Roedd pobl hŷn wedi bod yn rhan o broses ymgynghori fawr rai blynyddoedd ynghynt ac roedd ganddynt syniadau lu o ran ffyrdd i wella gwasanaethau a chyfleoedd yn yr ardal.

Gororau'r Alban - lle ceir trefi bach ac ardaloedd gwledig anghysbell eang. Dechreuodd Doethineb Gwledig drwy weithio ar faterion sy'n effeithio ar bobl ar draws yr ardal, ac yna gwnaethant ganolbwyntio ar bentref Newton St Boswells a ffermydd a phentrefi bychain iawn cyfagos. Mae gan yr ardal hon boblogaeth o lai na 3,000 o bobl a'i heriau yw gwasanaethau lleol prin a chysylltiadau trafnidiaeth gwael gyda threfi.



Cymru

Lleoliadau Cam Un

Coed-llai a Phontblyddyn - Mae Coed-llai a Phontblyddyn yn ddau bentref bach gwledig yn Sir y Fflint- rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug. Mae iddynt boblogaeth o ychydig dros 2,000 o bobl.

Aberdaugleddau - Mae Aberdaugleddau wedi'i leoli yn Sir Benfro ac mae iddi boblogaeth o bron i 14,000 o bobl.

Lleoliadau Cam Dau

Penrhyn Dale - Mae Penrhyn Dale yn Sir Benfro yn cynnwys cymunedau pentref Mae gan y tair cymuned boblogaeth gyfunedig o ychydig dros 1,000 o bobl.

Treffynnon - Tref farchnad yn Sir y Fflint yw Treffynnon. Mae gan y dref a'r pentrefi cyfagos iddi boblogaeth gyfunedig o ychydig llai na 9,000 o bobl.

2.2 Y Gwerthusiad


Comisiynwyd NDTi fel prif bartner gwerthuso ar gyfer Doethineb Gwledig yn 2017 a pharhaodd yn y safle hwnnw hyd at fis Ionawr 2020. Ar yr adeg hon, cafodd y trefniadau eu hadolygu ac ymgwymerodd Outside the Box â'r gwaith o werthuso gweithgareddau Doethineb Gwledig yn yr Alban, a NDTi yn arwain y gwerthusiad yng Nghymru, yn a_dolygu'r cyd-destun polisi yr oedd y prosiect yn berthnasol iddo yn y ddwy genedl, a thynnu ynghyd yr adroddiad terfynol hwn a dogfen gwersi a_llweddol a ddysgwyd.

Gweithiodd NDTi, Outside the Box a Volunteering Matters drwy gydol gwerthusiad a chyflawniad Doethineb Gwledig gyda chymunedau lleol er mwyn cyflawni canlyniadau'r prosiect drwy:

- Fynd i'r afael â'r materion yr adnabu pobl hŷn yn flaenoriaethau i'w cymunedau a chynnig cyfleoedd i bobl hŷn siapio eu cymuned er mwyn gwneud iddo weithio'n dda iddynt a phobl eraill a oedd yn byw yno.
- Datblygu gweithgareddau cymunedol a oedd yn cynnwys ac yn cefnogi pobl hŷn, yn ogystal â'u cysylltu â'i gilydd ac eraill yn y gymuned.
- Adeiladu ar y cryfderau a'r profiad mae pobl hŷn wedi'u cyflwyno, a'u hannog, ac annog asiantaethau a phobl eraill i werthfawrogi a chefnogi hyn.
- Archwilio ffyrdd i adnabod a dangos effaith y gweithgareddau hyn, eu cyfraniad at newidiadau mwy a sut i rannu'r ddysg sy'n deillio o hyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith gwerthuso a wnaethpwyd yn y ddwy genedl yn canolbwyntio ar y pwynt diwethaf hwn, gyda NDTi ac Outside the Box yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i gasglu tystiolaeth a rhannu dysg wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Gelwir hyn yn gwerthuso ffurfiannol, sy'n golygu bod tystiolaeth yn cael ei chasglu o ddechrau'r prosiect ac yn cael ei bwydo'n barhaus i'r ddarpariaeth er mwyn adeiladu ar 'yr hyn sy'n gweithio' a dysgu gan 'yr hyn nad ydyw'n gweithio gystal'. Mae hyn yn groes i 'werthusiad crynodol', sy'n defnyddio tystiolaeth i adrodd ar effaith ar ddiwedd prosiect. Roedd gwneud gwerthusiad ffurfiannol o Doethineb Gwledig yn cyd-fynd yn dda â dyluniad cyffredinol y prosiect sydd, fel y dengys yn y ddelwedd isod, wedi'i anelu at fewnosod modd dwyochrog o weithio o fewn cymunedau a oedd yn gwrando, dysgu, cysylltu, newid a thyfu.

Rural Wisdom: How we work



Casglwyd tystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad drwy sgysiaau a chyfweliadau gyda Gweithwyr Datblygu a phartneriaid y prosiect; cyfweliadau gydag aelodau cymunedol, arweinwyr, yr awdurdod lleol a rhanddeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol, newid straeon, astudiaethau achos, blogiau, presenoldeb a chyfranogiad yng nghyfarfodydd gweithwyr Doethineb Gwledig ac ysgogwyr sgysiaau digidol, a holiadur ar-lein.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r dulliau hyn yn sail i ddyluniad a darpariaeth Doethineb Gwledig ar draws y bum mlynedd, yn ogystal â chyhoeddi'r eitemau canlynol er mwyn rhannu dysg yn ehangach:

- [Adroddiadau cynnydd - 2017/18](#)
- [Astudiaethau achos - 2017/18](#)
- [Adroddiad Gwerthuso Blwyddyn 1 - Ebrill 2019](#)
- [Diweddariad gwerthuso - Ionawr 2020](#)
- [Diweddariad gwerthuso - Tachwedd 2020](#)
- [Crynodeb o Bolisi - Mawrth 2021](#)
- [Newid Straeon - Tachwedd/Rhagfyr 2021](#)
- [Podlediad - Tachwedd 2021](#)
- [Dogfen Gwersi Allweddol a Ddysgwyd - Rhagfyr 2021](#)
- [Diweddariad Gwerthuso terfynol yr Alban - Rhagfyr 2021](#)
- [Diweddariad Gwerthuso terfynol Cymru - Rhagfyr 2021](#)
- [Cyfres o bostiadau blog a gyhoeddwyd drwy gydol y prosiect](#)

2.3 Defnyddio'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd stori Doethineb Gwledig drwy rannu'r gwaith a wnaethpwyd a dwyn ynghyd mewn un lle y gwersi allweddol a ddysgwyd ar draws pum mlynedd. Mae'n drosolwg o'r prosiect sy'n pwysleisio pwyntiau, gweithgareddau, a chyflawniadau allweddol, yn hytrach nag archwiliad manwl o bopeth sydd wedi digwydd ers 2017. Er mwyn osgoi dyblygu neu ailadrodd yr eitemau cyhoeddiedig (rhestrwyd uchod) a ffynonellau perth nasol eraill, cyfeirir yn eang atynt drwy gydol yr adroddiad. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Doethineb Gwledig neu dudalen prosiect Doethineb Gwledig NDTi.

Mae'r adrannau canlynol i'w cael yn yr adroddiad:

Cam 1 2017 – 2019: Cymryd y camau cyntaf

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y ddysg o'r gwaith sydd wedi'i wneud ar draws pob cymuned yng ngham un, yn ogystal â'r gwersi allweddol a ddysgwyd drwy'r gwerthusiad o'r hyn a weithiodd yn dda a'r cynnydd tuag at ganlyniadau.

Cam 2 2019 – 2020: Tipyn o benbleth

Yn yr adran hon, rhennir manylion o sut y dechreuodd Doethineb Gwledig weithio gyda chymunedau yng ngham dau cyn pandemig COVID-19, yn ogystal â rhoi cipolwg myfyriol ar sut oedd y gwaith a wnaethpwyd yng ngham un yn sail ac yn cefnogi'r gwaith a wnaethpwyd wrth ymateb i'r pandemig.

Cam 3 2020 – 2022: Agwedd newydd, anghonfensiynol

Mae'r adran hon yn archwilio'r gwaith a wnaethpwyd pan oedd y pandemig yn ei anterth. Mae'n cynnig manylion o sut aeth y prosiect ati i addasu a newid y ffordd yr oedd yn gweithio gyda chymunedau, a throstynt, gan fanteisio ar ffyrdd newydd o fyw ac ail-siapio canlyniadau'r prosiect i adlewyrchu ei ddiben newydd. Caiff y wybodaeth ynghylch cynnydd tuag at y canlyniadau newydd a'r hyn a weithiodd yn dda ei rhannu hefyd.

Beth mae hyn i gyd yn ei olygu: Gwaddol Doethineb Gwledig

Bydd yr adran hon yn dod â'r adroddiad i ben, gan bwysleisio'r prif negeseuon sydd wedi codi yn sgil y prosiect ac yn manylu'r gwaddol y bydd yn ei adael.

3. Cam Un 2017 – 2019: Cymryd y camau cyntaf

3.1 Cymunedau Doethineb Gwledig

Y cymunedau a oedd ynghlwm â cham un Doethineb Gwledig oedd:

Yr Alban

[Eaglesham a Waterfoot](#), [Ucheldir Swydd Perth](#), [Goggled Angus](#)

Cymru

[Leeswood a Pontblyddyn](#), [Aberdaugleddau](#)

3.2. Gwranddo, dysgu, a datblygu

Fel y pwysleisiwyd yn y cyflwyniad, mae Doethineb Gwledig wedi'i seilio ar y gred bod pobl hŷn sy'n byw yng nghymunedau gwledig ledled Cymru a'r Alban (yn ogystal â rhywle arall) yn meddu ar brofiadau a doniau a, pe gânt gymorth a chefnogaeth, allai helpu i hyrwyddo'r newid a oedd ei angen i wneud cymunedau gwledig yn gyfeillgar i oedran.

Gyda hyn wrth ei galon, dechreuodd y Gweithwyr Datblygu a NDTi arni i weithio gyda'r cymunedau yng ngham un drwy ymgysylltu pobl hŷn a'u hannog i drafod:

- problemau lleol a oedd yn effeithio arnynt; a'u
- syniadau a'u hargymhellion o ran sut i wella eu hardaloedd i gael yr amgylchedd a'r cymorth a fyddai'n gweithio'n dda iddynt.

Roedd rhai o'r problemau a'r blaenoriaethau a ddeilliodd o'r ymgysylltiad hwn â phobl hŷn yn gyffredin ar draws pob cymuned, ac roedd rhai yn benodol i ranbarthau neu genhedloedd. Mae rhagor o fanylion ynghylch hyn (ac eitemau eraill a drafodir yn yr adran hon) i'w cael yma ac yma, ond ymhlith y problemau a'r blaenoriaethau cyffredin oedd y canlynol:

- Pobl hŷn eisiau rhagor o wybodaeth ynghylch yr hyn a oedd yn digwydd yn eu hardaloedd lleol i wneud defnydd gwell o weithgareddau, bod yn fwy cysylltiedig a chyrraedd mwy o bobl a oedd ganddynt lai o gysylltiadau ac a oedd wedi'u harwahanu/yn unig.
- Galw am welliant yn y cyfleusterau a seilwaith lleol, ac iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn lleihau'r angen i deithio ymhell am wasanaethau hanfodol.
- Angen i wasanaethau a sefydliadau yng nghymunedau gwledig gael cysylltiadau gwell â'i gilydd, yn ogystal â'r cymunedau yr oeddynt yn eu gwasanaethu.
- Roedd mynediad i drafnidiaeth yn ardaloedd gwledig, a'i chost, yn fater allweddol a oedd yn effeithio ar allu pobl i fod ynghlwm â'u cymuned a cheisio'r cymorth a'r gwasanaethau roeddynt eu hangen.
- Angen am fwy o weithgareddau sy'n pontio cymunedau ac yn cynnwys y gymuned gyfan.
- Tai gwell a fforddiadwy yn ardaloedd lleol i sicrhau bod pobl yn gallu aros yn yr ardaloedd sy'n gyfarwydd iddynt.
- Meddu ar fwy o gyfraniad at gynlluniau a phenderfyniadau'r sector cyhoeddus sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu bywydau a'u cymunedau.
- Cydnabyddiaeth well am eu cyfraniadau at eu cymunedau.

These issues, priorities and needs directly informed the project aims and outcomes that guided the focus of Rural Wisdom for the remainder of the project:

1. Mwy o bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn codi llais ac yn arwain newid yn eu cymunedau lleol.
2. Mwy o bobl hŷn yn cael y cymorth maen nhw ei eisiau, sy'n gweithio'n dda iddyn nhw, drwy ystod ehangach o wasanaethau cymunedol.
3. Polisiau yng Nghymru a'r Alban yn cefnogi pobl hŷn i barhau i fyw yn y cymunedau gwledig sy'n gyfarwydd iddynt ac yn annog pobl hŷn i gyfrannu at eu cymunedau.
4. Mae profiad pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, a'u cymunedau, yn cyfrannu at dwf cymunedau ledled y DU sy'n gwerthfawrogi, yn cynnwys ac yn cefnogi pobl hŷn.

3.3 Gwaith a wnaethpwyd yng nghymunedau cam

Yr Alban

Roedd yr ymgysylltiad cyntaf â phobl hŷn yng nghymunedau Doethineb Gwledig yr Alban yn eang ac yn cynnwys cyfarfod â sefydliadau ac unigolion cyfredol, gan gynnwys preswylwyr mewn tai gwarchod, pobl leol mewn grwpiau cymunedol, mynychu digwyddiadau lleol; siopau pop-yp ac ymgynghoriadau 'cwt potio' lle mae pobl hŷn yn cyflwyno eu safbwyntiau ynghylch eu hardaloedd lleol ar labelau planhigion a'u rhoi mewn potiau o'r enw 'hau'; 'meithrin'; 'blodeuo' a 'heriau'. Cafodd pob unigolyn blanhigyn bach i fynd gartref i ddiolch am gymryd rhan (canlyniad 1).

Yn sgil y gweithgareddau ymgysylltu hyn, gwnaethpwyd gwaith yn y tair cymuned i ddwyn pobl hŷn ynghyd – ac yn rhai ardaloedd, cwrdd â phobl ieuengach - drwy weithgareddau cymunedol. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys dawnsiau te a grwpiau canu yng ngogledd Angus; preswylwyr mewn tai gwarchod cefnogi disgyblion ysgol gynradd yn Eaglesham; a chefnogi grwpiau i gysylltu â'i gilydd a gwneud defnydd gwell o gyfleusterau cyfredol (canlyniad 1 a 2).

Yn ogystal, gwnaethpwyd gwaith i fynd i'r afael â phroblemau a blaenoriaethau allweddol eraill yng nghymunedau lleol, megis gwella seilwaith lleol, cysylltiadau trafnidiaeth a sefydlu prosiect cyfeillio (canlyniad 1 a 2). Gwnaethpwyd cysylltiadau hefyd â chynghorau lleol, sefydliadau lleol a chenedlaethol a gwasanaethau i helpu gyda datblygu blaenoriaethau Doethineb Gwledig a meddwl am syniadau a phrosiectau i helpu cymunedau gwledig.

Roedd hyn yn cynnwys prosiectau newydd, megis datblygu The Care and Wellbeing Co-Op yn Ucheldir Swydd Perth, a oedd yn bodoli cyn Doethineb Gwledig ond a gafodd ei ddatblygu mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, darparwyr gwasanaeth a'r Co-op, i ddarparu cyngor a chymorth annibynnol er mwyn i bobl yn yr ardal geisio gofal cymdeithasol. Ni fyddai'r datblygiad hwn wedi digwydd heb y ddysg ynghylch anghenion pobl leol a gasglwyd gan Doethineb Gwledig (canlyniad 1, 2 a 3). Roedd y ddysg gan Doethineb Gwledig hefyd yn caniatáu i Outside the Box symud ymlaen â'r materion â blaenoriaeth gydag awdurdodau lleol, Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Byrddau Iechyd a Llywodraeth yr Alban i fod yn sail i 'Scottish Strategy: A Fairer Scotland', yn ogystal ag annog pobl i gyfrannu at ymgynghoriadau strategaethau megis 'A Connected Scotland' (canlyniad 1 a 3).

Cymru

Yn yr un modd â'r gwaith a wnaethpwyd yn yr Alban, roedd y gwaith a wnaethpwyd yng Nghymru yng ngham un yn ymwneud â dwyn pobl ynghyd, gwranddo arnynt a'u cysylltu â'r gwasanaethau o'u cwmpas. Er enghraifft, aeth Gweithiwr Datblygu Aberdaugleddau ati i ddwyn ynghyd grŵp o bobl a rhoi'r cyfle iddynt drafod a dweud eu dweud ynghylch materion lleol a sut i'w gwella (canlyniad 1).

*...roedd hyd yn oed pobl a oedd yn ymddangos yn dawel yn cael cyfle i godi eu llais.
(Gweithiwr Datblygu)*

Arweiniodd hyn at greu a chyhoeddi'n barhaus canllaw 'What's on' yn Aberdaugleddau, fel ymateb i'r bobl hŷn yn egluro nad ydynt yn ymwybodol o ddigwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal neu a oedd ar gael iddynt (canlyniad 1 a 2). Arweiniodd hefyd at nifer o grwpiau naill ai'n ail-ddechrau, yn ehangu neu'n cael eusefydlu o ganlyniad i bresenoldeb y Gweithwyr Datblygu. Er enghraifft, aeth y llyfrgell leol ati i ehangu'r grwpiau a oedd yn cael eu cynnal yno, gan gynnwys grŵp gemau bwrdd bob dydd Gwener a grŵp 'gwau a chlonc' ddwywaith yr wythnos, a dechrau grŵp te, coffi a gemau bwrdd rheolaidd wedi'i sefydlu gan y Gweithiwr Datblygu mewn canolfan gymunedol leol (canlyniad 1 a 2).

Yng Nghoed-llai a Phontblyddyn, roedd consensws yn y gweithgareddau ymgysylltu cychwynnol yng ngham un, bod darpariaeth dda i bobl hŷn, ond bod angen rhywbeth ar gyfer y gymuned yn gyffredinol. Clywodd y Gweithiwr Datblygu hyn ac aeth ati i gynnal nosweithiau ffilm a the prynhawn i ddwyn pobl ynghyd a sefydlu'r Sunshine Community Café gyda chymorth aelodau'r gymuned a'r cyngor lleol (canlyniad 1 a 2). Mae'r caffi yn cynnig rhywbeth sy'n pontio cenedlaethau ar gyfer y gymuned gyfan, gyda babanod mor ifanc â thri diwrnod oed i bobl dros 80 oed yn galw draw i weld cyfeillion, dod am sgwrs ac am rywbeth i'w fwyta neu ei yfed. Mae wedi cael effaith enfawr ar y gymuned gydag un gwirfoddolwr yn cofio:

Daeth un fenyw i mewn oherwydd ei bod hi prin yn mynd allan, felly daeth yma i gwrdd ag ychydig o bobl, wyddoch chi, sy'n dda iawn.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, roedd tystiolaeth ledled Cymru yng ngham un i awgrymu bod pobl hŷn yn arwain newid yn eu hardaloedd lleol drwy'r gweithgareddau sydd eisoes wedi'u disgrifio ac oherwydd bod cynrychiolaeth ehangach ohonynt yn y gymuned leol a chynghorau tref na'r cenedlaethau ieuengach.

Nid oes prinder o bobl dros 70 oed sydd ynghlwm â'r gymuned mewn unrhyw fodd. (Aeolod y Gymuned)

Roedd y ddysg gan Doethineb Gwledig hefyd yn caniatáu i Volunteering Matters symud ymlaen â'r materion â blaenoriaeth gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer Cymru i helpu i fod yn sail i'r rhaglen 'Heneiddio'n Dda yng Nghymru', yn ogystal ag annog pobl hŷn i gyfrannu at ymgynghoriadau strategaeth megis 'Cysylltu Cymunedau.

3.4 Beth oedd y gwaith hwn yn ei ddweud wrthym?

Mae'r gwaith a wnaethpwyd yng ngham un Doethineb Gwledig wedi helpu'r prosiect i wneud cynnydd sylweddol tuag at ganlyniadau'r prosiect (fel y manylir uchod) ond roedd hefyd yn pwysleisio dysg ychwanegol ynghylch yr hyn sydd angen bod ar waith a phwy sydd angen bod ynghlwm ag ef er mwyn gwneud i brosiect datblygiad cymunedol fel hyn weithio; pa heriau mae prosiect o'r fath a'r cymunedau yn eu hwynebu drwy fod ynghlwm, a'r effeithiau ehangach ac annisgwyl maen eu cael ar bobl eraill, sefydliadau, a gwasanaethau mewn ardal leol.

Beth a phwy sydd angen bod ynghlwm?

Roedd y gwaith a wnaethpwyd yng ngham un Doethineb Gwledig yn pwysleisio mai er mwyn i Doethineb Gwledig fod yn llwyddiannus, bod angen i'r Gweithwyr Datblygu penodedig fod yn frwdfrydig, yn agos-atoch, yn gallu cyfathrebu'n dda ac yn fodlon cefnogi ac arwain yn garedig aelodau'r gymuned i ddechrau a chynnal gweithgareddau a grwpiau cymunedol. Yn ddefnyddol, mae angen i'r Gweithwyr fod wedi'u cefnogi gan wirfoddolwyr cymunedol o bob oedran hefyd, er mwyn helpu i gynnal gweithgareddau a chysylltioldeb. Roedd yr angen am ymgysylltiad a oedd yn pontio cenedlaethau mewn prosiect fel Doethineb Gwledig yn ganfyddiad allweddol a ddeilliodd o gam un, gyda phobl hŷn yn y rhan fwyaf o gymunedau yng Nghymru a'r Alban yn cydnabod mai er mwyn i'w cymunedau, ac yn eu tro, pobl hŷn oddi mewn iddynt ffynnu, bod angen i bobl o bob oedran fod ynghlwm â datblygiadau a chreu gweithgareddau i sicrhau cynaliadwyedd.

Yr heriau a wynebwyd

Ar ddechrau cam un, teimlodd rai aelodau o'r gymuned nad oedd ganddynt yr hyder neu'r profiad i ymgymryd â phrif rôl neu nad oeddynt yn meddu ar y gallu i gyflawni newid. Ac roedd aelodau eraill o'r gymuned yn anfodlon ymrwymo i ymgymryd â rolau o'r fath. Bu'r gwaith cefnogol gan y Gweithwyr Datblygu o ran helpu i ysgogi pethau mewn cymunedau yn gymorth i newid hyn. Aeth y Gweithwyr ati i gefnogi unigolion a oedd yn awyddus i ymgymryd â'r rolau hyn, i gymryd eu camau cyntaf a'u helpu i lywio'r map darpariaeth gwasanaethau ac ymgysylltiad â nhw, sy'n gallu bod yn gymhleth ar adegau.

Roedd y cam hwn o Ddoethineb Gwledig hefyd yn wynebu heriau o ran darparu tystiolaeth tuag at ganlyniad 4 'Mae profiad pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, a'u cymunedau, yn cyfrannu at dwf cymunedau ledled y DU sy'n gwerthfawrogi, yn cynnwys ac yn cefnogi pobl hŷn'. Wedi dweud hynny, mae hwn yn ganlyniad tymor hirach ar gyfer y prosiect

Yr effaith ar eraill

Roedd cynghorau lleol, Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a oedd yn mynd i'r afael ag ardaloedd Doethineb Gwledig yn hoffi'r ffyrdd creadigol aeth y prosiect ati i gyrraedd pobl hŷn ac ymgysylltu â nhw, ac eraill mewn cymunedau gwledig bach i wella cysylltiadau â'r sector cyhoeddus yn gweithio gyda chymunedau cam un.

Gall Doethineb Gwledig ddarparu cyswllt â'r gymuned leol... felly pan mae'r Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn trafod ymgysylltiad cymunedol, ymglymiad cymunedol a dull yn seiliedig ar asedau, ei fod yn cyfleu'n rhywbeth ymarferol a gwerthfawr. Mae gan [ardal awdurdod lleol] ymgyrch 'Eich Llais'. Er mwyn i'r dulliau hyn weithio go iawn, mae angen i bobl hŷn mewn cymunedau lleol godi llais – ac mae angen i'r cyngor/partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol wrando ar gymunedau a gweithio gyda nhw i ddatblygu gweithgareddau dan arweiniad cymunedau ac adnoddau i bobl eu defnyddio.

(Swyddog Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

Mae hyn yn rhywbeth yr oedd Doethineb Gwledig yn gobeithio ei ddatblygu yng ngham dau y prosiect, ynghyd ag archwilio i sut ellir gwneud y mwyaf o gysylltiadau â'r Llywodraeth a chyrrff cenedlaethol er mwyn cynyddu effaith Doethineb Gwledig a sut ellir mewnosod mwy o waith sy'n pontio cenedlaethau yng nghymunedau gwledig er mwyn sicrhau perchnogaeth a chynaliadwyedd gweithgareddau. Roedd hyn yn ychwanegol at y gwaith a fyddai'n cael ei wneud gyda chymunedau cam dau, ac ochr yn ochr â'r gwaith hwnnw.

4. Cam Dau 2019 – 2020: Tipyn o Benbleth

4.1 Cymunedau Doethineb Gwledig

Ochr yn ochr â'r gwaith parhaus â chymunedau cam un, roedd y cymunedau newydd a oedd ynghlwm â cham un Doethineb Gwledig fel a ganlyn:

Scotland

[Burghead, Hopeman a Cumingston](#), [Gororau'r Alban](#)

Wales

[Penrhyn Dale](#), [Treffynnon](#).

4.2 Yn cyflwyno Doethineb Gwledig

O ddechrau 2019 ymlaen, dechreuodd Gweithwyr Datblygu yn y ddwy genedl a'r NDTi gysylltu yn raddol â Doethineb Gwledig, a'i gyflwyno i gymunedau cam dau. Gwnaethpwyd y gwaith hwn ochr yn ochr â'r cyswllt parhaus â chymunedau cam un. Lleihaodd y cyswllt hwn ar draws cymunedau yn raddol dros amser yn rhai ardaloedd, a pharhaodd yn uchel yn ardaloedd eraill. Roedd cyflwyno Doethineb Gwledig i gymunedau cam dau yn cynnwys rhannu gwybodaeth ynghylch pwrpas y prosiect, beth a allai gynnig a'r hyn a oedd cymunedau cam un yn ei ddysgu. Cynhaliwyd sgwrsiau gydag aelodau'r cymunedau i gael rhagor o wybodaeth ynghylch:

- problemau lleol a oedd yn effeithio arnynt; a'u
- syniadau a'u hargymhellion o ran sut i wella eu hardaloedd i gael yr amgylchedd a'r cymorth a fyddai'n gweithio'n dda iddynt.

Yn wahanol i gam un, ni wnaeth y sgwrsiau hyn ail-siapio nac addasu nodau/canlyniadau cyffredinol y prosiect, yn hytrach, gwnaethant helpu i siapio ffocws y gwaith i'w wneud yn yr ardal leol. I raddau helaeth, roedd y syniadau, blaenoriaethau a phryderon yng nghymunedau cam dau yn gyffelyb i'r rhai a oedd yng nghanam un (gweler y bennod flaenorol), gyda pheth ychwanegiadau lleol, megis:

- darpariaeth ynni, tlodi tanwydd a newid hinsawdd;
- cynhwysiant digidol;
- dysgu gydol oes.

4.3 Gwaith a wnaethpwyd yng nghymunedau cam dau

Yr Alban

Fel ymateb i ymgynghoriad â phobl hŷn yn Burghead, Hopeman a Cumingston sefydlwyd pwyllgor bysiau i helpu i gysylltu cymunedau'r rhanbarth yn ffisegol, yn gymdeithasola rhwng cenedlaethau. Yn gwasanaethu ar y pwyllgor hwn oedd Cyngor Moray, Doethineb Gwledig a phobl leol. Llwyddodd Doethineb Gwledig i gysylltu'r pwyllgor a phobl leol eraill â'u cymheiriaid yn Sir Benfro, a arweiniodd at sgwrs a rhannu gwarsi a ddysgwyd drwy Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro (PACTO). O ganlyniad sefydlwyd Gwasanaeth Bysiau Cymunedol yn y rhanbarth, a ddaeth yn rhan o'r ymdrech i ymateb i COVID yn yr ardal yn helpu gyda chludo pobl i ganolfannau brechu (canlyniad 1, 2 a 3). Gwnaethpwyd gwaith tebyg ar y Gororau, gyda'r Gweithiwr Datblygu yn cefnogi pobl hŷn i dynnu ar gysylltiadau ledled Cymru a'r Alban, gydag aelodau o PACTO yn teithio i gwrdd â phobl leol. Lanswyd holiadur trafniadaeth a bwydwyd yr ymatebion i hwnnw mewn ffilm fer 'Travel with Confidence' a grëwyd gyda Borders Buses a Hyrwyddwr Pobl Hŷn Gororau'r Alban, i ymateb i bryderon ynghylch teithio yn ystod COVID-19.

Yn ogystal, crëwyd holiadur yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag ynni a thanwydd a chafwyd ymateb anhygoel gan bobl leol. Darparodd canfyddiadau'r holiadur lawer o wybodaeth a gafodd ei rhannu gan Outside the Box mewn cynadleddau, mewn sgysiau gyda Home Energy Scotland a Aelodau Lleol Senedd yr Alban, yn ogystal â chyfrannu at beilot 'Strategaethau Effeithiolrwydd Gwres a Thanwydd Lleol' Llywodraeth yr Alban a chreu Ymddiriedaeth Datblygu (canlyniad 1 a 3). Digwyddiad lleol yn ymwneud â Chyngor ar Ynni i ddarparu pobl leol â gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch eu hynni (canlyniad 2)

Yn y Gororau, gwnaethpwyd gwaith i greu cyfres o weithgareddau tymhorol hunan-gynhaliol a oedd yn annog mwy o gysylltiadau cymdeithasol effeithiol a rheolaidd ar draws cenedlaethau o fewn cymunedau. Er enghraifft, taith gerdded pwmpenni yn yr awyr agored, taith gerdded pabi ar Sul y Cofio, a Dawns Rithiol ar Ddydd Gŵyl Andreas (canlyniad 1 a 2).

Cymru

Yn yr un modd ag yn yr Alban, dechreuodd y Gweithwyr Datblygu weithio gyda'u cymunedau i ymateb i'r sesiynau ymgynghori. Ym Mhenrhyn Dale, treuliodd y Gweithiwr Datblygu fisoedd yn dod i adnabod y gymuned, ymweld â'r ardaloedd a dod i wybod beth oedd yn digwydd yno a'r hyn yr oedd ei angen. Yn sgil y gwaith hwn, sefydlwyd y tîm Cysylltwyr Cymunedol yn y rhanbarth, The Dale Winter Warmers. Cyfres o weithgareddau rheolaidd oedd y rhain lle byddai pobl leol yn gallu dod ynghyd i wneud gweithgareddau hwyliog gyda'i gilydd, gan gynnwys taith ddirgel ar fws, yn ogystal â chael cyfle i gysylltu ag eraill a cheisio cyngor a gwybodaeth. Datblygwyd rhwydwaith e-bost yn yr ardal o ganlyniad i'r gweithgareddau, a ddaeth yn ffynhonnell cyfathrebu hollbwysig, ac yn fodd o rannu gwybodaeth a rhoi cymorth i bobl yn ystod COVID-19 (canlyniad 1 a 2). Cyfrannodd y gwaith a wnaed yn y Penrhyn at ddatblygu menter trafniadaeth gymunedol newydd gan PACTO gan y canfuwyd bod sawl gyrrwr yn y pentrefi yn fodlon cynnig cludiant i bobl eraill. Roedd hyn yn caniatáu i nifer o bobl leol fod yn gysylltiedig ag ystod ehangach o ddigwyddiadau a gweithgareddau, ac felly roedd hynny'n gwella eu cysylltiadau cymdeithasol ac yn lleihau eu teimladau o unigedd (canlyniadau 1, 2 a 3).

Yn Nhreffynnon, sefydlwyd cyfres o foreau coffi i ddarparu pobl â lle i ddod at ei gilydd a chysylltu. Roedd hefyd yn cynnig cyfle iddynt geisio gwybodaeth a chyngor gan fod Cymru Gynnes a'r Canolfan Byd Gwaith Lleol yn mynychu rhai o'r boreau coffi (canlyniad 1 a 2). Cafodd y Gweithiwr Datblygu yn Nhreffynnon wahoddiad i Holway Hub House, sef canolfan gwybodaeth, cyngor a chymorth yn Nhreffynnon sy'n gartref i ystod eang o sefydliadau'r awdurdod lleol a'r trydydd sector. Oherwydd bod gan Doethineb Gwledig bresenoldeb yn y ganolfan, roedd hynny'n rhoi'r cyfle i'r prosiect ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned lawn a magu cysylltiadau â gwasanaethau eraill. Yn ystod ei amser yn y Tŷ, llwyddodd y Gweithiwr Datblygu i gefnogi Cyfeillion Holway wneud ceisiadau am gyllid Cadwch Gymru'n Daclus, a llwyddo i'w sicrhau, er mwyn creu gardd gloynnod byw, gwely llysiau a choed ffrwythau (canlyniad 1 a 2).

4.4 Tipyn o benbleth – COVID-19

Ym mis Mawrth 2020, tarodd bandemig COVID-19 y DU gyda'r cyfnod clo cyntaf yn dechrau ar 23 Mawrth 2020. Teimlodd Doethineb Gwledig a chymunedau cam dau ei effaith fel yr oedd gweithgareddau ar fin dechrau, wrth i berthnasoedd gael eu magu, wrth i bobl ddechrau dod ynghyd, ac wrth fagu ymddiriedaeth. Tarodd gymunedau cam un hefyd wrth i weithgareddau, grwpiau a phrosiectau ddechrau cael eu cynnal, i ddechrau gyda chymorth trigolion lleol a chael eu cynnal ar y safleoedd gwreiddiol.

Bu'n rhaid i Doethineb Gwledig, fel yr oeddem yn ei adnabod, roi'r gorau iddi ar unwaith.
(Gweithiwr Datblygu)

Ar ôl y sioc gychwynnol, aeth Gweithwyr Datblygu, yn ogystal ag Outside the Box a Volunteering Matters, ati i weithio ar eu hymateb i COVID-19 ar draws cymunedau Doethineb Gwledig a thu hwnt.

Yn yr Alban, roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng a oedd yn mynd rhagddo, gyda phobl hŷn yn chwarae rôl allweddol yn adnabod a chynnig cymorth a gweithgareddau cymunedol. Roedd cynhwysiant digidol yn rhan allweddol o'r ymateb i COVID, a manteisiwyd ar y prosiect Digital Buddies yn y Gororau er mwyn cefnogi pobl hŷn i gysylltu â chyfeillion, teulu, grwpiau, y gymuned a'r byd yn ehangach.

Ymgwymerwyd â gwaith cyffelyb yng Nghymru, gyda gwasanaeth tele-gyfeillio yn cael ei sefydlu, gan baru gwirfoddolwyr yn y gymuned â phobl yr oedd gofyn iddynt warchod eu hunain. Trafodir y gwaith hwn yn fwy manwl yn y bennod nesaf.

4.5 Beth oedd y gwaith hwn yn ei ddweud wrthym?

Roedd y gwaith a wnaethpwyd yng ngham dau Doethineb Gwledig yn parhau i helpu'r prosiect wneud cynnydd tuag at ganlyniadau'r prosiect (fel y manylir uchod), gan bwysleisio hefyd y ddysg i'w chasglu o effaith gronnu prosiect hirdymor a sut mae mynd ati i ymateb i benblethau annisgwyl.

Gwersi a ddysgwyd yng ngham un

Aeth gweithwyr yng Nghymru a'r Alban ati i dynnu ar y gwersi a ddysgwyd yng ngham un Doethineb Gwledig, a'u rhannu, fel rhan o'u gwaith gyda safleoedd cam dau. Roedd hyn yn cynnwys sut i ymgysylltu pobl hŷn a phobl o genedlaethau ieuengach yn y prosiect, sut i ddenu sylw arweinwyr lleol, gwasanaethau, a sefydliadau a sut i fwydo'n uniongyrchol i ddatblygiadau strategol/polisi lleol a chenedlaethol.

Mae'n debyg i'r strategaeth filwrol. Dechreuasom arni drwy fagu perthnasoedd, rhwydweithiau a chysylltiadau yng ngham un ac erbyn hyn rydym yn gwneud yr un fath yng ngham dau. Petai gennym ragor o amser, gallem gysylltu'r holl fannau Doethineb Gwledig hyn fel inc ar dudalen.
(Gweithiwr Datblygu)

Llwyddasant hefyd i dynnu ar y perthnasoedd a'r rhwydweithiau a ddatblygwyd yng ngham un i helpu gyda'r datblygiadau yng nghymunedau cam dau. Mae'r gwaith a wnaed mewn perthynas â phroblemau trafniadaeth a chysylltu PACTO â chymunedau cam dau ledled yr Alban yn ogystal ag ym Mhenrhyn Dale yn un enghraifft o hyn.

Ymateb i heriau annisgwyl

Cyflwynodd COVID-19 her hollol newydd ac annisgwyl i Doethineb Gwledig ac felly nid oedd cynlluniau ar ei chyfer. Wedi dweud hynny, drwy ymateb y Gweithwyr Datblygu a'r prif bartneriaid yn ehangach, llwyddodd y prosiect i barhau i fynd rhagddo. Roedd gallu'r prosiect i wneud hyn yn rhannol oherwydd bod y cyllid yn ddigon hyblyg i amsugno'r effaith a wnaeth COVID-19, ond hefyd hyblygrwydd, creadigrwydd a pharodrwydd y gweithwyr i barhau.

Treuliodd y prif bartneriaid amser yn recriwtio'r gweithwyr cywir a oedd yn lleol i'r ardaloedd dan sylw, yn credu yn y cymunedau ac wedi buddsoddi ynddynt, ac a oedd ar gael yn y tymor hir, ac roedd hynny'n golygu ei bod hi'n bwysig iddynt barhau a pheidio â gadael y cymunedau heb y cymorth yr oedd y prosiect yn bwriadu ei gynnal ar adeg pan oedd ei angen yn fwy nag erioed.

5. Cam Tri 2020 – 2022: Agwedd newydd, anghonfensiynol

5.1 Cymunedau Doethineb Gwledig

Y cymunedau a oedd ynghlwm â'r cam hwn o Doethineb Gwledig oedd:

Yr Alban

[Eaglesham a Waterfoot](#), [Ucheldir Swydd Perth](#), [Gogledd Angus](#), [Burghead, Hopeman and Cummington](#), [Gororau'r Alban](#)

Cymru

[Coed-llai a Phontblyddyn](#), [Aberdaugleddau](#), [Penrhyn Dale](#), [Treffynnon](#).

Yn ychwanegol at y naw cymuned Doethineb Gwledig hyn, ymgysylltodd nifer o gymunedau eraill â'r prosiect ar yr adeg hon. Roedd hyn o ganlyniad i'r cynnydd mewn cysylltiadau o fewn ac ar draws

5.2 COVID-19: Wynebu dyfodol newydd

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, trawodd bandemig COVID-19 hanner ffordd drwy ddarpariaeth Doethineb Gwledig. Bu'r Gweithwyr Datblygu a'r partneriaid yn y ddwy genedl, gyda chymorth cydweithwyr yn NDTi, yn gyflym i addasu ac ymateb i'r sefyllfa newydd.

5.3 Canlyniadau newydd

Yng ngwanwyn 2021, cynhaliodd Outside the Box a NDTi gyfres o weithdai ar-lein a holiadur ar-lein ar gyfer aelodau cymunedau, rhanddeiliaid, arweinwyr, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a phartneriaid i fyfrio ar ganlyniadau'r prosiect.

Mae Doethineb Gwledig wedi gwneud cryn dipyn o waith da, ond erbyn hyn rwy'n credu ei bod yn amser iddo ail-feddwl ei ddiben a beth mae hyn yn ei olygu.
(Gweithiwr Datblygu)

Mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r dulliau hyn yn awgrymu er bod nodau/canlyniadau gwreiddiol y prosiect yn dal i fod yn berthnasol, roedd angen ychwanegu rhagor o ganlyniadau i adlewyrchu cyd-destun newydd y prosiect. Felly, aeth gwerthuswyr o Outside the Box a NDTi, ati i drin y wybodaeth a gafodd ei chasglu ar-lein, gyda chaniatâd gan y rhai a oedd ynghlwm â'r ymgynghoriad, ac ychwanegu'r canlyniadau canlynol i'r prosiect:

5. Mae'r cysylltiadau a'r rhwydweithiau cymorth sydd wedi'u magu ar draws cenedlaethau mewn cymunedau lleol yn ystod pandemig COVID-19, yn cael cymorth i barhau ar ôl y pandemig.
6. Gwrandewir ar leisiau pobl hŷn a chânt eu gwerthfawrogi yn y gwaith adfer a wneir ynardaloedd gwledig i ail-ddatblygu cymunedau, gwasanaethau, a seilwaith. Ac mae hynny'n cynnwys beth i'w ail-gyflwyno mewn cymunedau gwledig, a sut mae mynd ati i wneud hynny, o'r adeg cyn y pandemig.
7. Caiff pobl hŷn mewn cymunedau lleol eu cefnogi i ail-gysylltu ag eraill yn eu hardal leol mewn modd sy'n teimlo'n ddiogel.

5.4 Gwaith a wnaethpwyd yng nghymunedau cam tri

Yr Alban

Yn yr Alban, gwnaethpwyd gwaith i ymateb i anghenion newydd cymunedau Doethineb Gwledig yng ngham un a cham dau, gan gynnwys cadw pobl mewn cysylltiad a rhoi'r diweddaraf i bobl drwy rwydweithiau ar-lein, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyr cymunedol. Roedd y newid hwn i gysylltu ar-lein a'r dibyniaeth mae hyn wedi'i roi ar dechnoleg ddigidol yn heriol i ddechrau i rai pobl hŷn yn y Gororau. O ganlyniad, helpodd y Gweithiwr Datblygu i sefydlu'r prosiect Digital Buddies sy'n cefnogi pobl hŷn i ddysgu sut mae cysylltu'n ddigidol â chyfeillion, teulu, grwpiau, eu cymunedau a'r byd yn ehangach. Cânt gefnogaeth gan Fydi (cyfaill, aelod o'r teulu neu aelod o gymuned arall) yn ogystal â chael y dechnoleg i ddechrau arni. Mae'r bydis wedi caniatáu i'r prosiect gymryd agwedd bersonoledig iawn a chefnogi pobl hŷn i wneud beth sy'n bwysig iddynt, ac mae hynny'n bopeth o siopa ar-lein i gyfarfodydd cyngor cymuned, i Netflix. Rhannwyd cysyniad Digital Buddies yn eang ar draws rhwydweithiau Doethineb Gwledig gan gynnwys gyda gweithwyr, pobl hŷn ac aelodau'r teulu yn ardaloedd eraill (canlyniad 1 a 2).

Yn ogystal â chysylltiadau o bell, cafodd y gwaith a wnaed yn y Gororau a Hopeman cyn y pandemig i ddatblygu gwasanaethau trafniadaeth newydd gyda chysylltiadau gwell eu hail-bwrpasu i ddarparu cysylltiadau hollbwysig i safleoedd profi COVID a chanolfannau brechu ledled y rhanbarth. Yn ogystal, yn sgil y gwaith a wnaed yn Moray a'r Gororau, bu'r rhwydweithiau a'r perthnasoedd a grëwyd cyn y pandemig yn gymorth i sicrhau (outcome 2).

Yn olaf, helpodd Doethineb Gwledig wahanol genedlaethau o gymunedau yn y Gororau i gysylltu â'i gilydd a chael hwyl mewn cyfnod pan oedd gwir angen am hynny. Gweithgareddau i gynnal cymuned, megis llwybr cerdded pwmpenni yn yr awyr agored ar gyfer Calan Gaeaf 2020, cystadleuaeth bwgan brain ar gyfer Calan Gaeaf 2021, llwybr cerdded pabi ar gyfer Sul y Cofio 2020 (canlyniad 2, 6 a 7).

Dechreuasom yn ystod Covid a gwnaethom feddwl am ffyrdd rhwydd, syml i bobl wneud cysylltiadau a chymryd rhan pan y gallent
(Gweithiwr Datblygu)

Cymru

Yn yr un modd ag yn yr Alban, gwnaethpwyd gwaith yng Nghymru i sicrhau bod pobl yng nghymunedau cam un a dau yn cael eu cefnogi, eu bod yn gysylltiedig, a'u bod yn gallu derbyn gwasanaethau hanfodol drwy gydol y pandemig.

Yn Aberdaugleddau, defnyddiwyd rhestr e-bost canllaw 'What's On' i rannu gwybodaeth ac arweiniad hanfodol, yn enwedig mewn perthynas â chyfyngiadau, rheolau a brechlynnau COVID-19. Ymgwymerwyd â gweithgaredd cyffelyb ym Mhenrhyn Dale, Coed-llai a Phontblyddyn a Threffynnon, gyda rhestr e-bost a gafodd eu creu yn gynharach yn y prosiect yn cael eu defnyddio er mwyn cadw cysylltiad yn y cymunedau. Dilynwyd y ddolen hon am ragor o wybodaeth (canlyniad 1 a 2).

Yn ogystal, cyflwynodd Volunteering Matters Fodel Ymateb Casnewydd ledled Cymru. Yng nghymunedau Doethineb Gwledig, cyflwynwyd y Model yn llwyddiannus oherwydd y rhwydweithiau a gafodd eu creu cyn y pandemig y gellid eu defnyddio i rannu gwybodaeth a chysylltu pobl a oedd angen cymorth gyda'r rhai a oedd yn gallu ei ddarparu. Roedd hyn yn golygu bod y bobl mewn angen yn gallu cael danfoniadau bwyd a moddion, bod eu cŵn yn cael mynd am dro a'u bod yn cael rhywun i sgwrsio gydag ef dros y ffôn/ar-lein yn wythnosol (canlyniad 1 a 2).

Yn olaf, wrth i ganllawiau a chyfyngiadau llywodraethau lleol yng Nghymru lacio, ail-ddechreuodd y grwpiau a oedd yn cael eu cynnal cyn y pandemig yn raddol mewn ffyrdd a oedd yn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel, ynghyd â grwpiau a gweithgareddau newydd yn cael eu sefydlu gyda chymorth Doethineb Gwledig (canlyniad 6 a 7).

Ar draws y prosiect yn gyffredinol

Yn ychwanegol at waith a wnaethpwyd yn uniongyrchol i gefnogi cymunedau yn y ddwy genedl ynghlwm â Doethineb Gwledig yn ystod y pandemig, gwnaethpwyd y gwaith gan Weithwyr Datblygu a phartneriaid i gysylltu ar-lein, a hynny o fewn ac ar draws cenhedloedd, gyda'i gilydd, cymunedau, rhanddeiliaid, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhwydweithiau eraill a oedd â diddordeb yn niben a nodau Doethineb Gwledig. Roedd modd gwneud rhai o'r cysylltiadau hyn oherwydd y trosglwyddiad i weithio ar-lein yn sgil y pandemig, a oedd yn golygu nad oedd rhaid i weithwyr deithio a'u bod yn gallu gwneud mwy a mynychu mwy o gyfarfodydd.

Mae gweithio fel hyn wedi cryfhau'n sylweddol y berthynas rhwng Outside the Box a Volunteering Matters, ac mae'r elfen hon yn uchafbwynt allweddol i nifer o'r gweithwyr:

Mae wedi bod yn wych gweithio gyda'n gilydd mor agos, rydym yn teimlo fel tîm, roeddem yn dîm o'r blaen, ond rydym yn gweld llawer mwy ar ein gilydd nawr ac wir yn nabod ein gilydd erbyn hyn. Rydym wedi bod drwy gymaint ac wedi bod yn gefn i'n gilydd (Gweithiwr Datblygu)

Oherwydd trefniadau gweithio ar-lein, cafodd Gweithwyr Datblygu gyfleoedd i ymuno â chyfarfodydd a chael sgysiau gyda sefydliadau a rhwydweithiau newydd. Yn Sir Benfro, arweiniodd hyn at Volunteering Matters, o ganlyniad i Doethineb Gwledig, yn dod yn aelod allweddol newydd y bartneriaeth PIVOT yn darparu cymorth i bobl a oedd yn gadael yr ysbyty a/ neu atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen (canlyniad 3 a 6).

Oherwydd datblygiadau fel y rhain, a sgysiau ynghylch ynni, tlodi tanwydd a'r argyfwng hinsawdd yn Moray, sefydlodd Doethineb Gwledig gyfres o ysgogwyr sgysiau ar-lein yn 2021 a oedd yn caniatáu i bobl ar draws y ddwy genedl, gan gynnwys pobl o gymunedau Doethineb Gwledig ac eraill, i ddod ynghyd i ddysgu, trafod a datblygu syniadau ynghylch pynciau sydd o bwys iddynt a'u cymunedau.

5.5 Beth mae'r gwaith hwn yn ei ddweud wrthym?

Mae'r gwaith a wnaethpwyd yng nghanam tri Doethineb Gwledig wedi darparu'r dystiolaeth tuag at y canlyniadau gwreiddiol ac ychwanegol (fel y manylir uchod), yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd Gweithwyr Datblygu a phartneriaid yn bod yn hyblyg, creadigol, ac ymatebol i anghenion y cymunedau yr oeddynt yn gweithio gyda nhw, a'i gilydd.

6. Beth mae hyn i gyd yn ei olygu? Gwaddol Doethineb Gwledig Doethineb Gwle-

Crëwyd Doethineb Gwledig, ac ymgwymerwyd ag ef, i helpu cymunedau gwledig yng Nghymru a'r Alban fanteisio ar brofiadau, sgiliau, a gwybodaeth pobl hŷn i helpu i greu newid cynaliadwy er mwyn gwneud eu cymunedau yn fwy cyfeillgar i oedran.

Effeithiodd pandemig COVID-19 ar y prosiect yn fawr, o ran sut y cafodd ei gyflawni hefyd, ond ni effeithiwyd ar y ffocws i gyflawni newid er mwyn greu cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd dros y bum mlynedd. Roedd natur organig a dwyochrog y prosiect mewn cymunedau, yn nifer o achosion, yn caniatáu i Doethineb Gwledig ffynnu mewn cyfnod cythryblus mewn hanes.

Diben yr adroddiad hwn oedd adrodd stori am sut aeth Doethineb Gwledig ati i gyflawni hyn drwy bwysleisio adegau allweddol mewn amser, gweithgareddau, a chyflawniadau yn ystod y bum mlynedd. Nid oedd modd rhannu manylion yr holl waith caled a diflino sydd wedi'i wneud gan Weithwyr Datblygu, partneriaid, gwirfoddolwyr, aelodau cymunedau, a rhanddeiliaid, neu'r llu o adegau hudolus sydd wedi'u cyflawni yn sgil y prosiect ers 2017. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan Doethineb Gwledig neu dudalen prosiect Doethineb Gwledig NDTi.

6.1 Y Gwaddol

Mae'r newidiadau a gafodd eu gwneud oherwydd COVID-19 o fewn Doethineb Gwledig yn golygu bod y gwaddol y mae'n ei adael yn wahanol i'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r prosiect. Mae'r gobeithion o ran greu newid cynaliadwy yng nghymunedau, mewnosod problemau pobl hŷn mewn polisi gwledig ac fel arall yng Nghymru a'r Alban, a chyflwyno'r gwersi a ddysgwyd yn sgil Doethineb Gwledig i weddill y DU a thu hwnt, wedi'u haddasu ychydig.

Cyflawnwyd cynnydd tuag at bob un o ganlyniadau'r prosiect (rhai gwreiddiol ac ychwanegol), fel y nodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn. Yn ogystal â'r canlyniadau a gyflawnwyd, mae'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Doethineb Gwledig yn ystod y bum mlynedd diwethaf yn adrodd stori unigryw o gymunedau gwledig yn ystod pandemig, a phwysleisio sut all prosiect cyflawni cymuned helpu i gefnogi a chyflawni newid yn y cymunedau hynny yn ystod yr adegau mwyaf heriol, yn ogystal â mewnosod newid yn sut caiff prosiectau eu cyflawni, eu gwerthuso, a'u defnyddio i fod yn sail i ddatblygiadau strategol a datblygiadau polisi lleol a chenedlaethol.

Y gwaddol yng nghymunedau

Y gwaddol yng nghymunedau:

- Grwpiau, gweithgareddau a chlybiau a oedd wedi'u sefydlu cyn COVID-19 neu wedi'u hysbrydoli gan y rhain yn ail-agor unwaith eto mewn ffyrdd y mae pobl hŷn yn teimlo ei bod yn ddiogel eu mynychu. O ran y gweithgareddau megis yr ardd yn Holway Hub House yn Sir y Fflint, y gweithgareddau a barhaodd drwy bopeth, erbyn hyn mae mwy o bobl yn gallu cymryd rhan ynddynt a chyfrannu atynt.
- Mae rhwydweithiau ar-lein, megis rhestr e-bost, grwpiau Facebook a'r canllaw What's On yn Aberdaugleddau yn parhau i fod yn weithredol ac yn cael eu cynnal mewn cymunedau i gadw pobl mewn cysylltiad, rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- Mae cysylltiadau rhwng cenedlaethau a gafodd eu greu cyn COVID-19, a'u cryfhau yn eu sgil, yn cael eu cynnal yng nghymunedau. Mae hyn yn cynnwys y cymorth parhaus a gynigwyd yng nghymunedau i unigolion y mae gofyn iddynt hunanynysu oherwydd COVID-19.

Y gwaddol ar gyfer prosiectau datblygu cymunedol y dyfodol

Ar gyfer Gweithwyr Datblygu a phartneriaid, mae Doethineb Gwledig yn gadael gwaddol o newid yn y dull o ddatblygu, creu, ac ymgymryd â phrosiectau newydd. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod y cyllid cywir yn ei le sy'n caniatáu'r rhyddid i weithio gyda chymuned, yn hytrach na chyflawni newid ynddynt, a'r hyblygrwydd i addasu a newid yn ôl anghenion cyd-destun lleol yn ogystal â digwyddiadau annisgwyl,
- Sicrhau bod y bobl gywir wedi'u penodi, sy'n lleol i'r prosiect, wedi buddsoddi yn y cymunedau a nodau'r prosiect, sy'n gallu cyfathrebu'n dda ac yn fodlon bod yn hyblyg, creadigol a dewr o ran symud y gwaith yn ei flaen.
- Treulio amser ar ddechrau prosiect i ddod i nabod y cymunedau, a'u deall, datblygu perthnasoedd, magu ymddiriedaeth a chreu rhwydweithiau
- Ymgysylltu â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ac yn llunio polisiau ar lefel leol a chenedlaethol o'r cychwyn cyntaf er mwyn cynnwys eu cyfraniad a mewnosod y prosiect.
- Ymgysylltu â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ac yn llunio polisiau ar lefel leol a chenedlaethol o'r cychwyn cyntaf er mwyn cynnwys eu cyfraniad a mewnosod y prosiect.
- Cael sgysiau ailadroddus, yn enwedig wrth wynebu heriau, er mwyn clywed beth mae pobl ei angen a'i eisiau.
- Ymgymryd â ffyrdd newydd o weithio, sy'n briodol i'r sefyllfa a'r bobl ynghlwm. Roedd hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, defnyddio llwyfannau digidol (h.y. Zoom, Teams, Jam Boards, etc.), cwrdd yn yr awyr agored, a chynnal busnes dros y ffôn.
- Mae rhannu gwersi a ddysgwyd o fewn prosiectau, ac ar draws prosiectau, ond yn ehangach yn hollbwysig er llwyddiant prosiect success.

Y gwaddol strategol

O ganlyniad i'r gwaith yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod Doethineb Gwledig, mae peth gwaddol sylweddol o ran polisi a gwaddol strategol yn cael eu gadael, gan gynnwys:

- Profiadau, gwybodaeth, a safbwyntiau pobl hŷn yng nghymunedau gwledig yn cael eu mewnosod yn y 'Scottish Strategy: A Fairer Scotland', 'A Connected Scotland', 'Heneiddio'n Dda yng Nghymru' a 'Cymunedau Cysylltiedig' (Cymru).
- Lleisiau pobl hŷn yng nghymunedau gwledig ledled Cymru a'r Alban yn cael eu hystyried a'u bod yn cyfrannu at sgysiau strategol oherwydd y cysylltiadau sydd wedi'u gwneud ag Aelodau Senedd Cymru, Aelodau Seneddol, ac Aelodau Senedd yr Alban.
- Datblygiadau o ran y modd y caiff iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â gofal mewn ysbytai, ei gynnig a'r profiadau ohono yng nghymunedau gwledig, o ganlyniad i'r bartneriaeth PIVOT yn Sir Benfro a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws cenedloedd Doethineb Gwledig.

6.2 Beth nesaf?

Wrth i Doethineb Gwledig dynnu at ei derfyn a'r cyllid sydd ar gael yn dod i ben, mae ffocws sawl un sydd wedi bod ynghlwm â'r prosiect dros y bum mlynedd nawr ar beth mae hyn yn ei olygu i'r cymunedau, pobl, sefydliadau a rhanddeiliaid yn y dyfodol.

Mae Outside the Box, Volunteering Matters ac NDTi yn chwilio am ffyrdd i barhau i weithio gyda'i gilydd ac wrthi'n datblygu syniadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol lle mae budd cyffredin.

Yn ogystal, mae Outside the Box a Volunteering Matters yn gweithio ar geisiadau grant i sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer prosiectau a gweithgareddau cymunedol penodol, yn ogystal â rhannu'r ddysg drwy gyfres o ddigwyddiadau wedi'u trefnu a ffyrdd i bobl gael diweddariadau drwy wefan a rhwydweithiau cymdeithasol Doethineb Gwledig.

Rhagor o wybodaeth

Mae Outside the Box, Volunteering Matters Cymru a'r Tîm Datblygu Cenedlaethol dros Gynhwysiant (NDTi) yn gobeithio y bydd y ddysg a rennir yma gan Doethineb Gwledig yn ddefnyddiol.

Os hoffech ragor o wybodaeth ynghylch y wybodaeth yn y ddogfen hon, neu am Ddoethineb Gwledig yn gyffredinol, ewch i wefan y prosiect www.ruralwisdom.org

Pwynt Cyswllt

Dr Victoria Mason-Angelow
Cynorthwydd Ymchwil a Gwerthuso
Victoria.Mason-Angelow@ndti.org.uk

National Development Team for Inclusion (NDTi)
www.ndti.org.uk

Gwerthuso Adnoddau

Mae mwy o wybodaeth ac adnoddau ar gael yma: www.ruralwisdom.org

